STEDDFOTA

Cylchlythyr Cymdeithas Eisteddfodau Cymru

Rhif 71 | Hybu eisteddfodau, cynnal cymunedau | Mawrth 2025

'STEDDFOD 'NÔL YN Y FELINHELI

Am y tro cyntaf mewn hanner canrif, cynhaliwyd eisteddfod leol ym mhentref y Felinheli. Roedd Sadwrn cyntaf mis Chwefror eleni yn benllanw misoedd o waith paratoi ar gyfer eisteddfod gadeiriol oedd yn gyfuniad o'r elfennau traddodiadol, megis y cystadlaethau llenyddol a cherddorol, yn ogystal ag ambell elfen wahanol a chyfoes fel cystadleuaeth ysgrifennu cân am y pentref. Mwynhawyd diwrnod arbennig o gystadlu brwd, gan blant ac oedolion, tan wedi hanner nos, a hynny mewn neuadd oedd yn orlawn o gefnogwyr.

Hoffai Cymdeithas Eisteddfodau Cymru longyfarch pwyllgor yr eisteddfod a diolch o galon iddynt hwy ac i bawb fu ynghlwm â'r gweithgareddau, cyn ac ar ddiwrnod yr eisteddfod.

Calondid mawr oedd cyfarfod â chriw oedd mor frwdfrydig a threfnus wrth iddynt gychwyn ar y daith o drefnu dros flwyddyn yn ôl, a gwych o beth yw gweld cymuned arall yn atgyfodi traddodiad sydd mor bwysig yn ein diwylliant ni fel Cymry.

Mae'n siwr bod ardal Y Felinheli'n edrych ymlaen at yr eisteddfod nesaf yn barod!

Parti Llefaru yn mwynhau ar y llwyfan

Llond neuadd o eisteddfodwyr

Anni Llŷn, y beirniad llefaru ac Iwan Wyn Williams, y beirniad cerdd, wrth eu gwaith

Cadeirio'r bardd buddugol, Ifan Prys o Landwrog

Rhagor o luniau'r eisteddfod (gan DELWEDD) i'w gweld ar www.steddfota.cymru

AELODAETH FLYNYDDOL i EISTEDDFODAU LLEOL £20

YN DALADWY DRWY SIEC NEU ARCHEB BANC

Yr holl fanylion angenrheidiol a ffurflen ymaelodi ar www.steddfota.cymru

CYSTADLAETHAU 2024-2025

Cofiwch bod holl fanylion ac amodau'r 3 cystadleuaeth, yn ogystal â 5 sgript Mewn Cymeriad i'w gweld ar www.steddfota.cymru

Cystadleuaeth Perfformio 2024-25:

MEWN CYMERIAD

Cyfle i unigolyn bortreadu un o gymeriadau enwog Cymru, yn seiliedig ar gyflwyniadau gwreiddiol Cwmni Mewn Cymeriad

Perfformiad hyd at 5 munud, wedi'i seilio ar ddewis o sgriptiau

MEWN CYMERIAD

OED: 16-25 **GWOBRAU: 1af £150; 2il £120; 3ydd £90**

(Noder mai gwobrau'r cystadleuaeth yn yr Eisteddfod Genedlaethol yw'r rhain. Cyfrifoldeb yr eisteddfodau lleol unigol fydd penderfynu ar wobrau eu heisteddfod nhw.)

- Dylai'r pwyslais fod ar greu perfformiad ysgafn, fydd yn profi gallu'r unigolyn i ryngweithio'n hwylus gyda'r gynulleidfa a chyfleu'r stori'n glir
- Caniateir gwisgoedd a props
- Bydd cystadlu mewn dwy eisteddfod leol **rhwng Mai 2024 a Mai 2025** yn rhoi'r hawl i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam 2025.
- Bydd yr enillydd cenedlaethol yn derbyn gwahoddiad i ymuno â Chwmni Mewn Cymeriad maes o law ar gyfer gweithdy ymarferol i ddatblygu agweddau ymhellach

EISTEDDFOD Wrecsam 2025

Mewn Cymeriad in Character

SGRIPTIAU AR GAEL O WEFAN CYMDEITHAS EISTEDDFODAU CYMRU www.steddfota.cymru

NEWYDD

Kate Roberts

NEWYDD

Dic Penderyn

NEWYDD

Mari Jones

Owain Glyndŵr

Cranogwen

Cystadleuaeth Gorawl 2024-2025

CYMDEITHAS EISTEDDFODAU CYMRU

Unrhyw gyfuniad o leisiau, heb fod yn llai nag 20 mewn nifer, i gyflwyno rhaglen o gerddoriaeth hunanddewisiad, heb fod yn hwy na 10 munud, ac i gynnwys darn gan gyfansoddwr o Gymro. Gellid hefyd defnyddio trefniant o alaw werin Gymreig gan gyfansoddwr o Gymro.

GWOBRAU

£1,000 Gwobr Goffa Catherine Lloyd Morgan, gynt o Ffair Rhos

1af £500
a Chwpan Miss Menai Williams a Mrs Nesta Davies
(i'w ddal am flwyddyn)

2il £300

3ydd £200

Cyflwynir Medal Goffa Gwilym E Humphreys (Cymrawd yr Eisteddfod Genedlaethol) i arweinydd y côr buddugol

AMODAU

- Ni chaniateir i unrhyw gôr ail-ganu cân mewn categori arall adeg yr Ŵyl
- Bydd cystadlu mewn dwy eisteddfod leol rhwng Mai 2024 a Mai 2025 yn rhoi'r hawl iddynt gystadlu yn y gystadleuaeth hon yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam 2025
- Wrth gofrestru bydd rhaid nodi enwau'r eisteddfodau lleol y cystadlwyd ynddynt

EISTEDDFOD Wrecsam 2025

CYMDEITHAS EISTEDDFODAU CYMRU

EISTEDDFOD Wrecsam 2025

CYSTADLEUAETH TLWS YR IFANC

2024 - 2025

Darn o farddoniaeth neu ryddiaith ar unrhyw ffurf. Hyd at 2,000 o eiriau.

Bydd gofyn i feirniaid argymell hyd at 3 darn o waith haeddiannol (rhaid cynnwys yr enillydd), i'w cynnig i Gymdeithas Eisteddfodau Cymru ar gyfer y gystadleuaeth hon.

Gwobr £200

Clwb Eryri
er cof am y diweddar Geraint Elis

Penodir dau feirniad yn y Genedlaethol i wobrwyo'r gwaith gorau. Dyfernir gwaith o Eisteddfodau lleol Cymru rhwng Ebrill 2024 ac Ebrill 2025.

www.steddfota.cymru

Cofiwch bod angen anfon darnau ar gyfer Tlws yr Ifanc erbyn diwedd mis Ebrill!

HEFYD: Manylion cystadlaethau 2025-26 ar www.steddfota.cymru

LLONGYFARCHIADAU!

Diolch yn fawr i'r holl ieuenctid a gefnogodd ein cystadlaethau diweddar - Ffotograffiaeth, Nodau Nadolig (perfformio cân) a Chreu Rhestr Chwarae Bersonol (i gyd-fynd â Dydd Miwsig Cymru).

Braf iawn oedd derbyn 47 o luniau, 29 o berfformiadau ar fideo a dros 50 rhestr chwarae.

Bu tipyn o grafu pen ymhlith y beirniaid, Betsan Haf Evans, Caryl Parry Jones ac Ifan Jones Evans, wrth iddynt ddewis yr enillwyr.

Diolch i'r tri am eu hamser yn ogystal, a llongyfarchiadau i bawb fu'n llwyddiannus.

NODAU NADOLIG:

1. Cassidy Watkinson, Llanfairpwll 2. Mali, Mali, Elen a Brooke, Ysgol Llanhari 3. Ifan Alun Midwood, Morfa Nefyn

FFOTOGRAFFIAETH:

1. Evelyn Harris, Caerfyrddin 2. Lisi Jones, Dinbych 3. Maizie Birks, Porthmadog.

RHESTR CHWARAE:

Evie,
Ysgol Bro Cinmeirch.

Clywyd y rhestr chwarae fuddugol ar raglen radio Ifan Jones Evans, BBC Radio Cymru ar ddydd Llun y 10fed o Chwefror.

Da iawn bawb. Cadwch lygaid allan am fwy o gystadlaethau yn ystod y flwyddyn, a chofiwch ddangos eich talentau mewn eisteddfodau lleol!

AR GAEL I'CH EISTEDDFOD CHI

Chwilio am feirniad neu gyfeilydd?

Cofiwch am ein rhestr.

Ar gael drwy ebostio angharad@steddfota.cymru neu lois@steddfota.cymru

O 'STEDDFOD I 'STEDDFOD

EISTEDDFOD GADEIRIOL PUMSAINT

Enillydd Tlws yr Ifanc - Heledd Haf Evans, Llwyndafydd

Bardd y Gadair - Keri Morgan, Garnant

EISTEDDFOD GADEIRIOL AELHAEARN

Bardd y Gadair - Siw Harston, Middlesex

Enillydd Tlws Llên yr Ifanc - Alaw Mair Williams, Pontllyfni

EISTEDDFOD LLANDYRNOG

Parti Canu Ysgol Twm o'r Nant

Llefarwyr Blwyddyn 5 a 6

EISTEDDFOD FLYNYDDOL ABERGYNOLWYN

Offerynnwyr llwyddiannus yng nghystadleuaeth Bl 6 ac iau

EISTEDDFOD GADEIRIOL CHWILOG

Deio Rhys - enillydd gwobr y perfformiwr mwyaf addawol

Enillydd Tlws yr Ifanc - Emyr Williams, Llanefydd

Bardd y Gadair - Judith Morris, Penrhyn-coch

Cystadleuaeth yr Unawd Gymraeg:
1. Marianne Jones Powell, Llandre
2. Rhys Roberts, Y Ffôr
3. Aled Jones, Comins Coch

EISTEDDFOD GARNDOLBENMAEN A'R CYLCH

Cystadleuaeth y Gân Werin dros 16 oed: 1af Twm Tudor

Parti Unsain a Pharti Llefaru buddugol Ysgol Garndolbenmaen

EISTEDDFOD GADEIRIOL CENARTH

Bardd y Gadair - Siw Harston, Staines

Arlunwyr oed cynradd a'u gwaith Celf buddugol ar thema 'Y Pentref'

EISTEDDFOD GADEIRIOL LLANDYFAELOG

Bardd y Gadair - Meirion Jones, Pentrecwrt, Llandysul

Cyflwynwyd Cwpan Coffa John a Nan Anderson, Trelimsey i'r cystadleuydd lleol dan 11 oed a ddangosodd yr addewid mwyaf

EISTEDDFOD GADEIRIOL CRYMYCH A'R CYLCH

Pentigili - y parti llefaru agored buddugol

Enillwyr y brif gystadleuaeth gorawl - Côr Rhocesi

EISTEDDFOD GADEIRIOL LLANEGRYN

Llefaru Bl 7 i 9: 1af Malena Aled, 2il Gwilym Jones, 3ydd Gwenlli Jones

Unawd a Chanu Emyn dan 25: 1af Elain Iorwerth, 2il Huw Jarman

LLONGYFARCHIADAU!

DIOLCH YN FAWR I'R HOLL FFOTOGRAFFWYR

Mwy o luniau a chanlyniadau ar www.steddfota.cymru

Edrychwn ymlaen at rannu blas o fyd yr eisteddfodau gyda chi yn y Steddfota nesaf. Pob hwyl gyda'r cystadlu!

BRAINT I BARTI PEN BARRAS

Yng Ngŵyl Cerdd Dant yr Wyddgrug, yn ystod mis Tachwedd 2024, cyflwynwyd tlws arbennig oedd yn rhoddedig gan Gymdeithas Eisteddfodau Cymru, a hynny er cof annwyl am Aled Lloyd Davies, un o sylfaenwyr y Gymdeithas.

Cyflwynwyd y tlws i Barti Pen Barras, Rhuthun, am ddod i'r brig yng nghystadleuaeth y Parti Cerdd Dant Agored.

Ffurfiwyd Parti Pen Barras yn arbennig ar gyfer cystadlu yng Ngŵyl Cerdd Dant Yr Wyddgrug, ac mae pob aelod o'r parti â rhyw gysylltiad ag Ysgol Pen Barras, Rhuthun – boed yn staff presennol, cyn-ddisgyblion, cyn-rieni neu ffrindiau i'r ysgol.

Roedd eu hyfforddwraig, Elinor Rogers, sy'n athrawes yn yr ysgol, yn awyddus iawn i gystadlu gan mai Gŵyl Aled oedd hon eleni. Pan ddechreuodd Elinor ei gyrfa fel athrawes yn Ysgol Gynradd Glanrafon,Yr Wyddgrug, yn 1990, roedd hi'n awyddus i ddysgu parti Cerdd Dant oedran cynradd ar gyfer cystadlu yn yr Urdd, a bu'n ffodus iawn i gael gosodiadau ac arweiniad gan Aled Lloyd Davies ei hun bryd hynny.

Felly fel teyrnged, ac i ddiolch iddo am ei gymorth, roedd hi'n awyddus i gystadlu yn yr Ŵyl arbennig hon yn 2024. Daeth â chriw at ei gilydd i ffurfio Parti Pen Barras, ac yn eu geiriau nhw, braint yn wir oedd dod i'r brig a derbyn Tlws Coffa Aled Lloyd Davies yn yr ŵyl a enwyd yn Gŵyl Aled.

****

Llongyfarchiadau calonnog iddynt ar eu llwyddiant haeddiannol iawn.

EISTEDDFOD TRALLONG
DYDDIAD NEWYDD: 26/07/25

Mae'r gwaith trefnu bron ar ben i bwyllgor Eisteddfod Trallong 2025! Cynhelir yr eisteddfod ar ddydd Sadwrn, Gorffennaf 26ain, 2025.

Arferai'r dyddiad yma gael ei hawlio gan eisteddfod enwog Capel Uchaf, ond gan nad yw Capel Uchaf wedi medru ailgychwyn eu heisteddfod ers y pandemig, roedd pwyllgor Trallong yn falch o allu mabwysiadu'r dyddiad, a hynny ar ôl trafod gydag aelodau pwyllgor Capel Uchaf.

Gobeithiwn yn fawr y bydd eisteddfodwyr y gorffennol, y presennol a'r dyfodol, yn gystadleuwyr a chynulleidfa, yn heidio i Neuadd Gymunedol Maescar, Pontsenni, ar y 26ain o Orffennaf, lle bydd croeso cynnes yn disgwyl pawb.

Mae'r tîm arbennig o feirniaid (Mrs. Meinir Richards - Cerddoriaeth, a Ms. Elen Rhys - Llên) yn edrych ymlaen at safon uchel o gystadlu, ac er mwyn sicrhau darpariaeth dda ar gyfer y cantorion, bydd ganddynt Bethan Thomas a Rhiannon Pritchard yn gyfeilyddion.

Bydd y rhaglen i'w gweld ar wefan Cymdeithas Eisteddfodau Cymru o fis Mawrth ymlaen, a bydd rhaglenni ar gael yn agosach at y dyddiad oddi wrth maryrobinsonbrecon@gmail.com.

Gadewch i ni wneud Eisteddfod Trallong cystal â'r un a drefnwyd gan bwyllgor Capel Uchaf, fel teyrnged i'w gwaith caled nhw dros lawer blwyddyn, ac yn arbennig fel teyrnged i'r diweddar Mrs. Annette Thomas, a wnaeth gymaint o waith i sicrhau llwyddiant yr eisteddfod.

Gan bwyllgor Eisteddfod Trallong

Beth y'ch chi'n ei wneud ar ddydd Iau yr 8fed o Fai? Beth am ddod i Eisteddfod Calan Mai, Morlan, Aberystwyth i gystadlu, gan fod y pwyllgor wedi penderfynu agor y cystadlaethau allan i unrhyw un eleni, ble bynnag maent yn byw.

Mae ganddynt raglen ddiddorol o gystadlaethau llwyfan, ynghyd â chystadlaethau gwaith cartref sy'n amrywio o osod blodau, i gyflwyno ffotograffau a gwaith Celf. Bydd y rhaglen yn barod maes o law a bydd modd i bawb ei gweld ar wefan Cymdeithas Eisteddfodau Cymru (www.steddfota.cymru)

Eleni, mae'r eisteddfod wedi rhoi comisiwn i Adran Gelf Coleg Ceredigion i baratoi dau dlws ar gyfer y ddwy brif gystadleuaeth yn yr adran lenyddol, ac mae aelodau'r pwyllgor yn edrych ymlaen yn eiddgar i weld y rhain wedi'u gwneud.

Beirniaid eisteddfod 2025 yw Trystan Lewis a Garry Owen - dau brofiadol iawn a fydd yn cyfoethogi'r eisteddfod gyda'u presenoldeb. Bydd y gwaith Celf yn cael ei feirniadu gan Gareth Owen, meistr arall yn ei faes, ynghyd â Donald Morgan a fydd yn gwneud gwaith arbennig yn beirniadu'r blodau yn ôl yr arfer.

Felly, cofiwch y dyddiad, ac os hoffech fwy o wybodaeth, cysylltwch â Megan Jones Roberts ar meganjones849@gmail.com.

STEDDFOTA
Cylchlythyr Cymdeithas Eisteddfodau Cymru
Hybu eisteddfodau, cynnal cymunedau

*DRWY'R POST
*AR E-BOST
*O'R WEFAN
*MEWN SIOPAU CYMRAEG

Am gopi, e-bostiwch: popeth@steddfota.cymru

Gofynnir yn garedig i chi ein hysbysu am unrhyw newid cyfeiriad/manylion cyswllt NEU os nad ydych yn dymuno derbyn copi erbyn hyn.

Eisteddfod Dur a Môr,
Parc Margam a'r Fro 2025
Mai 26-31

Welwn ni chi yno!

EISTEDDFODAU 2025

CEFNOGWCH EICH 'STEDDFOD LEOL!

Dyma'r eisteddfodau sydd wedi'u cadarnhau hyd yma. Diweddarir y rhestr ar www.steddfota.cymru wrth i ni dderbyn dyddiadau a rhestrau testunau.

1 Mawrth	Eisteddfod Llanfihangel-ar-arth a'r Plwyf	Margaret Bowen	01559 362215	wernmacwydd@btinternet.com
1 Mawrth	Eisteddfod Talybont, Rhyduchaf, Y Bala	Lois Angharad Evans Angharad Pritchard	07496621917	lois-tydu@hotmail.co.uk
7 Mawrth	Eisteddfod Cymdeithas Ceredigion	Gwenda Evans	01239 654552	gwendaevans257@btinternet.com
21 Mawrth	Eisteddfod Fach Capel Dewi	Catrin Curry	07974760198	machlud2@hotmail.com
22 Mawrth	Eisteddfod y Groeslon	Emma Lloyd Edwards	07786983542	emma.lloydedwards@btinternet.com
22 Mawrth	Eisteddfod Gadeiriol y Ffôr	Sioned Llwyd Williams	eisteddfodyffor@outlook.com	
29 Mawrth	Eisteddfod Gadeiriol Llangadog a'r Cylch	Sian Thomas	01550 777934	sianthomas339@btinternet.com
29 Mawrth	Eisteddfod y Fenni (5-18 oed)	Rosemary Williams	01873 811814	davidwilliams177@btinternet.com
29 Mawrth	Eisteddfod Dysgwyr y Gogledd Ddwyrain	Emma Burton	emma.burton@cambria.ac.uk	
4-5 Ebrill	Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch	Ceris Gruffudd	01970 828017	Ceris.Gruffudd@gmail.com
12 Ebrill	Eisteddfod Gadeiriol Mynytho	Dilwyn Thomas	01758 740704	dilwyn465@btinternet.com
18 Ebrill	Eisteddfod Gadeiriol Llandderfel	Llinos Pritchard	01678 530263	llinosannpritchard@gmail.com
21 Ebrill	Eisteddfod Uwchmynydd	Awen Griffith	01758 760667	awengriffith@hotmail.co.uk
23 Ebrill	Eisteddfod Capel y Groes, Llanwnnen	Ann Davies	01559 362626	anndavies52@gmail.com
25 Ebrill	Eisteddfod Gadeiriol Bryngwenith	Parch. Carys Ann	01239 851005	post@carys-ann.cymru
26 Ebrill	Eisteddfod Calan Mai Betws yn Rhos	Mair Jones	01492 514962	mair.jones1@btinternet.com
2 Mai	Eisteddfod Marian-glas	Gareth Evans-Jones	01248 853786	eisteddfodmarianglas@gmail.com
2-4 Mai	Eisteddfodau Teulu James Pantyfedwen Pontrhydfendigaid	Carys Ann Davies	01974 831244	carysann84@yahoo.co.uk
3 Mai	Eisteddfod y Talwrn, Ynys Môn	Helen Evans	01248 723038	taleilian@hotmail.co.uk
5 Mai	Eisteddfod Gadeiriol Maenclochog	Catrin Williams Carol Nicholas	01437 532431 07971073864	evansawilliams@hotmail.co.uk carolnicholas@talktalk.net
8 Mai	Eisteddfod Calan Mai Aberystwyth	Megan Jones Roberts	meganjones849@gmail.com	
9 Mai	Eisteddfod Gadeiriol Capel y Fadfa Talgarreg	Emyr Griffiths	01545 590383	siopdeithiol@btinternet.com
9 Mai	Eisteddfod Gadeiriol Mynydd y Garreg	Christine Evans	07811052017	christineevans2@icloud.com
10 Mai	Eisteddfod Gadeiriol yr Hendy	Delyth Mai Nicholas	01792 884036	delmnic@aol.com
10 Mai	Eisteddfod Dyffryn Ceiriog	Bethan Jones	07807450117	bethan157@btinternet.com
10 Mai	Eisteddfod Heol Senni	Siân Norgate	01874 636621	snorgate25@gmail.com
16 Mai	Eisteddfod Dihewyd	Meinir Lewis	01570 470050	euros@mailsaq.net
16 - 17 Mai	Eisteddfod Môn Bro Seiriol	David Evans	EisteddfodMon2025@gmail.com	
17 Mai	Eisteddfod Gadeiriol Llandudoch	Terwyn Tomos	01239 612928	ellandudoch@gmail.com
24 Mai	Eisteddfod Gadeiriol Llanuwchllyn	Alwyn Roberts	07818 454190	llungwyn@btinternet.com

SWYDDOG DATBLYGU
Angharad Brinn Morgan
07811057046
angharad@steddfota.cymru

YMHOLIADAU CYFFREDINOL:
popeth@steddfota.cymru

SWYDDOG CYFATHREBU
Lois Williams
01570 423700/07717842556
lois@steddfota.cymru